

Astudio mewn Sefydliad Arall Cyllid Myfyrwyr

Blwyddyn/semester dramor a lleoliadau mewn diwydiant

2019/2020



Mae'r wybodaeth hon yn berthnasol i fyfyrwyr newydd sy'n byw yng Nghymru neu Loegr ac sy'n cofrestru ar gyfer blwyddyn academiaidd 2019/2020. I gael gwybodaeth am yr hyn sydd ar gael i chi os ydych yn dod o'r tu allan i Gymru neu Loegr neu os ydych yn fyfyrwr sy'n parhau, cysylltwch â'r Tîm Arian@BywydCampws.

Beth yw Blwyddyn/Semester Dramor?

Gall fod gan fyfyrwr gyfle i dreulio cyfnod yn gweithio neu'n astudio dramor mewn prifysgol bartner. Fel arfer, bydd myfyrwr sy'n astudio rhaglenni gradd 4 blynedd yn treulio'r drydedd flwyddyn gyfan dramor.

Efallai bydd myfyrwr sy'n astudio rhaglen radd 3 blynedd yn gallu treulio semester dramor ar leoliad astudio. Bydd yn rhaid i fyfyrwr sydd â diddordeb yn y dewis hwn ei drafod gyda'u hadran, gan y bydd yn rhaid i'r astudio tramor arfaethedig gael ei gymeradwyo'n llawn cyn y lleoliad.

Beth yw Blwyddyn mewn Diwydiant?

Gall fod cyfle gan fyfyrwr sy'n astudio rhaglenni penodol i dreulio blwyddyn mewn sefydliad partner, a adwaenir hefyd fel 'Blwyddyn Rhyngosod', fel ffordd o ennill profiad a sgiliau gwerthfawr.

Cynhelir lleoliadau fel arfer fel rhan o gwrs 4 blynedd a gallant fod am dâl neu'n ddi-dâl.

Ffioedd Dysgu

Mae cost y Ffioedd Dysgu ar gyfer blwyddyn dramor/ lleoliad yn dibynnu ar y cynllun perthnasol. Mae unrhyw ffioedd sy'n ddyledus yn daladwy i Brifysgol Abertawe.

Taliadau Ffioedd Dysgu Prifysgol Abertawe 2019/20		
Cynllun	Myfyrwyr sy'n Byw yng Nghymru	Myfyrwyr sy'n byw yn Lloegr
Blwyddyn Dramor: Astudio	15% o'r ffi lawn h.y. £1350 Benthyciad Ffioedd Dysgu ar gael	15% o'r ffi lawn h.y. £1350. Benthyciad Ffioedd Dysgu ar gael
Blwyddyn Dramor: Gwaith	15% o'r ffi lawn h.y. £1350 Benthyciad Ffioedd Dysgu ar gael	15% o'r ffi lawn h.y. £1350. Benthyciad Ffioedd Dysgu ar gael
Blwyddyn mewn Diwydiant	20% o'r ffi lawn h.y. £1,800 Benthyciad Ffioedd Dysgu ar gael	20% o'r ffi lawn h.y. £1,800 Benthyciad Ffioedd Dysgu ar gael

Mae cymhwyster i dderbyn Benthyciadau a Grantiau Ffioedd Dysgu yn amodol ar y meini prawf cymhwyster arferol. Gweler ein Canllaw Cyllid i Israddedigion i gael rhagor o wybodaeth.

Astudio mewn Sefydliad Arall Cyllid Myfyrwyr

Blwyddyn/Semester dramor a lleoliadau mewn diwydiant



Cyllid Cynhaliath

Gwiriwch gyda'ch darparwr cyllid mewn perthynas â chymhwyster ar gyfer Cyllid Cynhaliath sy'n destun Prawf Modd a Grantiau Ychwanegol gan fod y meini prawf ar gyfer derbyn y rhain yn amrywio gan ddibynnu ar amgylchiadau unigol a pha fath o leoliad rydych yn ymwneud ag ef.

Mynediad at Gyllid Cynhaliath ar gyfer myfyrwyr sy'n byw yng Nghymru a Lloegr					
Cynllun	Grant				
	Benthyciad Cynhaliath	Cynhaliath sy'n destun Prawf Modd (Cyllid Myfyrwyr Cymru'n unig)	Erasmus Grant Symudedd	Grant Teithio Ychwanegol	Grantiau Ychwanegol
Blwyddyn Dramor: Astudio	✓	✓	x	✓**	Gwirio gyda'r darparwr cyllid
Blwyddyn Dramor: Gwaith	✓ Cyfradd is	x	x	✓**	Gwirio gyda'r darparwr cyllid
Blwyddyn mewn Diwydiant Gyda thâl	✓ Cyfradd is	x	x	x	Gwirio gyda'r darparwr cyllid
Blwyddyn mewn Diwydiant Heb dâl ^	✓ Cyfradd is	x	x	x	Gwirio gyda'r darparwr cyllid

** Nid yw myfyrwyr sydd ar leoliad gwaith dramor yn gymwys ar gyfer y Grant Teithio oni bai eu bod yn rhan o'r cynllun Erasmus+.

^ Ceir rhai eithriadau i'r rheol hon ar gyfer y myfyrwyr hynny sy'n ymgymryd â lleoliad di-dâl mewn rhai sefydliadau cyhoeddus/sefydliadau gwirfoddol/leoliadau ymchwil, etc. Cysylltwch â thîm Arian@BywydCampws i gael rhagor o wybodaeth

Gall tîm Ewch yn Fyd-eang Prifysgol Abertawe ddarparu rhagor o wybodaeth am weithio ac astudio dramor. Rhif ffôn: 01 792 606850 E-bost: studyabroad@abertawe.ac.uk

I gael gwybodaeth am astudio neu weithio dramor pan fyddwch ar gwrs a ariennir gan y GIG, cysylltwch â'r adran rydych yn bwriadu astudio gyda hi.

Os ydych yn byw yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon neu os ydych yn fyfyrwr o'r UE neu'n fyfyrwr Rhyngwladol, cysylltwch â ni i drafod y cyllid sydd ar gael.

Crynodeb yw'r daflen hon. Gwnewch yn siŵr eich bod yn edrych ar ein tudalennau gwe i gael manylion llawn.



CampusLifeSU

Arian @ | Money @



Bywyd Campws
Campus Life

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â thîm Arian@BywydCampws:

Rhif ffôn: 01792 606699

E-bost: money.campuslife@abertawe.ac.uk
<https://www.swansea.ac.uk/arian-campuslife/>